# Cwestiynau i Ymgeiswyr y Cynulliad – Hawliau

## Nodyn Briffio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Annwyl Gefnogwr,

Hoffem eich annog i holi'r ymgeiswyr Cynulliad yn eich ardal chi am y materion hyn yn ystod y cyfnod sy'n arwain at etholiadau'r Cynulliad. Derbyniwn y bydd y materion pwysicaf sy'n effeithio ar y Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal, felly rydym yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau briffio.

## I) Hawliau i Wasanaethau

Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011, bydd dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, a rhai preifat (post, telathrebu, ynni ac yn y blaen) i gydymffurfio â Safonau Iaith, sef dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau I'r cyhoedd a gweithwyr yn Gymraeg. Mae'r broses o osod Safonau ar gyrff eisoes wedi dechrau, ond mae hi'n broses llafurus, cymhleth ac araf.

Er bod dros 5 mlynedd ers i'r Mesur ddod i rym, mae'n syndod cyn lleied sydd wedi ei gyflawni. Dau set yn unig o safonau sydd wedi eu pasio mewn 5 mlynedd, a dim ond 1 fydd wedi dod i rym yn nhymor y Llywodraeth. Daw'r cylch cyntaf o Safonau i rym ar 30 Mawrth, ar Weinidogion y Llywodraeth, Awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol.

Credwn hefyd ei bod hi'n hen bryd diwygio'r Mesur. Mae angen ehangu ei sgôp er mwyn cynnwys yr holl sector preifat ynghyd a sefydlu hawliau cyffredinol i'r Gymraeg. Mae'n hymchwil diweddar ni i mewn i'r ddarpariaeth Gymraeg gan archfarchnadoedd yn dangos yn glir na fydd mwyafrif y cyrff yn y sector preifat yn darparu gwasanaethau Cymraeg o'u gwirfodd heb orfodaeth.

**Cwestiynau posibl i'w holi i ymgeiswyr Cynulliad:**

- Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n hen bryd diwygio'r Mesur drwy ehangu ei sgôp er mwyn cynnwys yr holl sector preifat, yn enwedig banciau ac archfarchnadoedd?
- A ddylai'r Gymraeg fod yn sgil hanfodol ar gyfer penaethiaid pob corff cyhoeddus?
- Ydych chi'n cytuno fod gan bawb yr hawl i gael triniaeth feddygol yn yr iaith maent yn teimlo fwyaf cyfforddus yn ei siarad? A sut fyddech chi'n sicrhau fod hyn yn bosibl?
- Mae llawer o gwynion am gyrff yn derbyn arian cyhoeddus ond yn anwybyddu'r amod iaith. *(er enghraifft, yr Ardd Fotaneg, Surf Snowdonia, Castell Aberteifi)* A fyddech chi'n sicrhau fod cyrff sy'n derbyn grant yn gwneud popeth yn ddwyieithog, a sut fyddech chi'n sicrhau hynny?
- Pwy ddylai fod yn gyfrifol am hyrwyddo bodolaeth yr hawliau newydd fydd yn deillio o'r Safonau?
- Pa gynlluniau sydd gennych i gael rhagor o adrannau'r Llywodraeth, a chyrff cyhoeddus eraill i weithio'n fewnol yn Gymraeg?

## II) Defnydd Aelodau Cynulliad o'r Gymraeg

Mae defnydd y Gymraeg gan Aelodau Cynulliad yn isel yn gyffredinol.

Mae defnydd o'r iaith yn Siambr y Senedd wedi gostwng yn 2015. 11.8% yn unig o'r cyfraniadau yn y Siambr gafodd eu gwneud yn Gymraeg yn 2015, o gymharu â 12.7% yn 2014.

**Cwestiynau posibl i'w holi i ymgeiswyr Cynulliad:**

- Mae ein hymchwil diweddar yn dangos bod y defnydd o'r Gymraeg yn siambr y Cynulliad wedi gostwng. A allwch chi ymrwymo i siarad Cymraeg ar bob cyfle y cewch?

## III) Diffyg Buddsoddi yn y Gymraeg

Mae cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru yn codi o £120 miliwn eleni, o £14.094 biliwn i £14.257 biliwn, ond mae toriad o 5.9% yn nhermau arian parod i'r gyllideb ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r ganran o wariant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei fuddsoddi mewn prosiectau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg yn bitw iawn - dim ond 0.16% o holl wariant y Llywodraeth. Mae hynny'n cymharu'n anffafriol iawn gyda gwlad fel Gwlad Basg lle buddsoddir cyfran bron saith gwaith yn fwy o'u cyllideb yn benodol ar yr iaith o'i gymharu â'r sefyllfa yma, sef £84 miliwn neu 1% o gyllideb ranbarthol 2014.

**Cwestiynau posibl i'w holi i ymgeiswyr Cynulliad:**

- Faint o ganran o gyllideb eich Llywodraeth fyddai'n mynd at brosiectau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg?
- Ydych chi'n cytuno y dylai fod targed hir dymor ar gyfer y canran o gyllideb Llywodraeth Cymru sy'n cael ei buddsoddi yn y Gymraeg?

## IV) Gwybodaeth Pellach

Dogfen Weledigaeth Cymdeithas yr Iaith "Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: Gweledigaeth o 2016 ymlaen": http://cymdeithas.cymru/2016ymlaen

Ystadegau am ddefnydd y Gymraeg yn y Cynulliad: http://cymdeithas.cymru/cymraeg-cynulliad/

Tystiolaeth Cymdeithas yr Iaith am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru: http://cymdeithas.cymru/dogfen/cyllideb-drafft-llywodraeth-cymru-2016-17-diffyg-buddsoddi-yn-y-gymraeg

#miliwn #etholiad16